Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR

T: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

14 Rhagfyr 2020

O 1 Ionawr 2021 ymlaen, bydd angen i fusnesau ym Mhrydain Fawr sy'n allforio defaid a geifr byw (ar gyfer bridio a chynhyrchu (pesgi)) a'u germplasm (semen, ofa ac embryonau) i'r UE ddilyn prosesau newydd.

Mae angen ichi fod yn ymwybodol y bydd rhai newidiadau yn y ffordd y caiff llwythi eu hardystio i'w **hallforio i'w symud o Brydain Fawr i'r UE ar gyfer rhai clefydau mewn defaid a geifr. Mae hyn yn golygu bod camau ychwanegol y mae angen ichi eu cymryd cyn i'ch anifeiliaid gael eu hallforio o Brydain Fawr i'r UE.** Mae'r llythyr hwn yn esbonio beth mae angen ichi ei wneud

Rydym yn atodi nodyn i filfeddygon sy'n nodi manylion y newidiadau hyn. Bydd angen ichi ddangos hyn i filfeddyg eich fferm a thrafod beth mae'n ei olygu i'ch anifeiliaid chi. Sylwch nad yw'r diweddariad hwn yn nodi'r holl newidiadau yn y gofynion ynglŷn ag allforio ac mai'r nod yw amlygu'n benodol y rhai sy'n berthnasol i glefydau penodol yn unig.

Mae rhai ystyriaethau ychwanegol ar gyfer symudiadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan gynnwys o ran sicrwydd ynglŷn â chlefyd y crafu a bydd y rhain yn cael eu cyfleu ar wahân cyn hir.

Mae rhagor o wybodaeth i allforwyr anifeiliaid byw ac am Dystysgrifau Iechyd Allforio ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/webinars-for-exporters-of-animals-and-products-of-animal-origin-to-the-eu

**Beth mae angen ichi ei wneud?**

1) Bydd angen i berchennog a milfeddyg y fangre lle mae defaid/geifr yn treulio'r cyfnod preswylio gofynnol cyn eu hallforio neu yn y daliad lle cafodd defaid/geifr a ddefnyddir ar gyfer germplasm eu cadw, lofnodi datganiad yn dweud nad oes gan yr anifeiliaid, hyd y gwyddys, y clefydau y cyfeirir atyn nhw yn y llythyr at filfeddygon, ac nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â hwy.

   Mae'r datganiad wedi'i nodi yn y llythyr at filfeddygon a bydd yn ymddangos yn y dogfennau y mae'n rhaid eu llenwi cyn allforio. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal statws y Deyrnas Unedig fel partner masnachu dibynadwy. Trafodwch gyda milfeddyg eich fferm a ydy ef neu hi o'r farn bod eich anifeiliaid yn rhydd rhag y clefydau hyn cyn ichi lofnodi.

Eich cyfrifoldeb chi yw bodloni'r gofynion hyn ac, os ydych yn dymuno allforio anifeiliaid, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio statws iechyd unrhyw anifeiliaid rydych chi'n bwriadu eu prynu er mwyn osgoi dod â'r clefydau hyn i mewn i'ch diadell.

1) Bydd yr wybodaeth wyliadwriaeth sydd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar ei chronfa ddata Dadansoddi Diagnosis Ymchwiliadau Milfeddygol (VIDA) ar gyfer eich daliad chi yn cael ei hasesu i weld a fu achosion o'r clefydau hyn o fewn y cyfnodau perthnasol. Os yw'r adroddiad yn dangos bod y clefydau wedi bod ar eich daliad chi o fewn y cyfnodau amser a bennwyd, ni chaniateir i'r llwyth deithio.

Os gallwch ddarparu prawf o aelodaeth o gynllun premiwm Coleg Gwledig yr Alban (SRUC) i'r Milfeddygon Swyddogol ar gyfer unrhyw un o'r clefydau hyn, er enghraifft, statws Achrededig Maedi Visna neu lefel 1 neu 2 clefyd Johne, caiff hynny ei dderbyn fel tystiolaeth o statws ar gyfer y clefydau hynny.

Er mwyn ardystio'r anifeiliaid neu'r germplasm i'w hallforio i'r UE, mae'n ofynnol i Filfeddyg Swyddogol gael datganiadau wedi'u llofnodi gan y ffermwr a'u milfeddyg, a chadarnhad gan APHA nad yw'r gwiriadau VIDA wedi datgelu unrhyw achosion o'r clefydau (neu gadarnhad perthnasol o gynllun sicrwydd SRUC).

**Y camau nesaf**

I barhau i allforio i'r UE ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, bydd angen ichi fodloni'r gofynion ychwanegol hyn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â:

Livestockexports@apha.gov.uk – ynghylch defaid a geifr ar gyfer bridio a chynhyrchu;

farmandgermcarlisle@apha.gov.uk – ynghylch germplasm defaid a geifr; neu

Ffoniwch 03000 200 301

Byddwch yn dymuno nodi y disgwylir i Dystysgrifau Iechyd Allforio newydd gael eu rhoi ar waith o 21 Ebrill 2021 ymlaen, drwy gyfrwng rheoliadau newydd gan yr UE ar Iechyd Anifeiliaid. Rydym yn rhagweld y bydd y gofynion newydd a nodir yn y llythyr hwn yn diflannu i raddau helaeth bryd hynny. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth cyn i unrhyw dystysgrifau newydd gael eu cyflwyno.

Yn gywir,

**CHRISTINE MIDDLEMISS**
**PRIF SWYDDOG MILFEDDYGOL Y DU**
Christine.Middlemiss@defra.gov.uk

**CHRISTIANNE GLOSSOP**
**PRIF SWYDDOG MILFEDDYGOL LLYWODRAETH CYMRU**
Christianne.glossop@gov.wales